**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-02-01(p.6)**

**Dylliad: Dydd Mercher 24th Ionawr 2001**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 3**

**Teitl: Cynigion ar gyfer y Cyngor Galwedigaethau Iechyd newydd**

## Y CYNGOR GALWEDIGAETHAU IECHYD (HPC)

### Pwrpas

1. Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, mynegodd aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (PIGC) bryder am y cynigion ar gyfer yr HPC newydd a lefel y gynrychiolaeth o Gymru ar y Cyngor hwnnw, gan ofyn am wybodaeth bellach am yr ymateb i'r ymarfer ymgynghori. Ceisia'r papur hwn roi gwybod am y datblygiadau yng nghyswllt sefydlu'r HPC a bodloni'r cais am wybodaeth am yr ymateb i'r ymarfer ymgynghori.

### Crynodeb

2. Mae'r papur hwn yn amlinellu prif strwythur, cwmpas a dyletswyddau'r HPC ac yn nodi manylion y gwaith ymgynghori a gyflawnwyd yn y cyfnod a arweiniodd at sefydlu'r fframwaith rheoleiddio newydd. Bydd y ddogfen yn rhoi crynodeb hefyd o'r sylwadau a dderbyniwyd gan y Cynulliad o blith grwpiau o fudd-ddalwyr allweddol ynghylch y cynigion fel ag y maent ar hyn o bryd a'r sylwadau a anfonwyd ymlaen at yr Adran Iechyd yn amlinellu barn y Cynulliad.

### Amseru

3. Mae'r Adran Iechyd, ar hyn o bryd, yn llunio fersiynau drafft o Orchmynion (sy'n amlinellu strwythur a galluoedd yr HPC). Disgwylir gallu cyflwyno'r rheiny ger bron Senedd San Steffan ym mis Mehefin 2001. Rhagwelir y byddir yn sefydlu HPC cysgodol ym mis Mai 2001 ac y bydd hwnnw'n meddu ar statws grp ymgynghorol nes y daw y Cyngor newydd i rym. Bwriedir i'r Cyngor Galwedigaethau Iechyd ymgymryd â'i gylch llawn o gyfrifoldebau erbyn 1$^{af}$ Medi 2001.

**Cefndir**

4. Bydd yr HPC yn olynu'r Cyngor Galwedigaethau Atodol i Feddygaeth (CPSM) yn y gwaith o reoleiddio deuddeg o alwedigaethau gofal iechyd (therapyddion celfyddyd, meddygon traed, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, technegwyr labordai meddygol, therapyddion galwedigaethol, orthoptyddion, parafeddygon, prosthetwyr ac orthotwyr, ffisiotherapyddion, radiograffyddion a therapyddion iaith a lleferydd) ledled y DU.
5. Nod y cynigion ar gyfer yr HPC yw atgyfnerthu'r broses o reoleiddio galwedigaethau proffesiynol trwy sefydlu corff symlach a mwy strategol lle ceir nifer sylweddol o leygwyr. Bydd yr HPC yn fwy agored, ymatebol ac atebol; ei amcan craidd fydd gwarchod y cleifion. Mae'r cynigion ar gyfer yr HPC yn rhagdybio y bydd safbwynt aml-broffesiynol tuag at reoleiddio yn elfen annatod o'r fframwaith newydd; Mae'r cynigion hefyd yn hyrwyddo cynlluniau i ymestyn y warchodaeth ar deitlau proffesiynol. Mae crynodeb o gynigion yr HPC yn *Atodiad A.* Mae dogfen ymgynghorol lawn o eiddo'r Adran Iechyd wedi'i hanfon eisoes at aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
6. Bu'r Adran Iechyd yn ymgynghori trwy ohebiaeth ym mhob cwr o'r DU dros gyfnod o dri mis, a daeth yr ymgynghori hwnnw i ben ar 1 Tachwedd 2000. Er mwyn ategu'r ymgynghori hwnnw a mesur y farn broffesiynol yng Nghymru yn fwy cywir, trefnodd swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol Seminar Ymgynghori i'r prif fudd-ddalwyr yng Nghymru i'w galluogi i fwydo eu sylwadau yn uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cynhaliwyd y Seminar ar 25 Hydref ac yr oedd 35 o gynrychiolwyr yn bresennol, gan gynrychioli gweithwyr proffesiynol perthnasol a chyrff o gyflogwyr.
7. Awgryma'r cynigion presennol ar gyfer yr HPC Gyngor ag iddo 23 o aelodau, 12 Gweithiwr Proffesiynol (un o bob proffesiwn a gynrychiolir) ac 11 o aelodau lleyg. Tra bydd y cynigion yn sicrhau y bydd o leiaf un aelod lleyg yn gweithio ym mhob un o bedair gwlad y DU, nid oes sicrwydd o'r fath yn achos y cynrychiolwyr o blith y gweithwyr proffesiynol/cofrestrwyr.

**Ystyriaeth**

8. Tra bo'r budd-ddalwyr a oedd yn bresennol yn y Seminar Ymgynghori wedi mynegi safbwynt croesawgar a phositif tuag at elfennau craidd cynigion yr HPC, yr oeddent yn feirniadol iawn o'r diffyg sicrwydd y ceid cynrychiolaeth broffesiynol genedlaethol o bob un o bedair gwlad y DU. Mae'r ymgynghorwyr Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi mynegi pryder hefyd ynghylch y diffyg sicrwydd y ceid cynrychiolaeth genedlaethol o blith cofrestrwyr.
9. Anfonwyd nodiadau o'r Seminar Ymgynghori at yr Adran Iechyd ynghyd â dogfen 'Sylwadau'r Cynulliad' (*Atodiad B*) a oedd yn mynegi sylwadau a oleuwyd gan atborth o'r ymgynghori a chyfarwyddyd gan Ymgynghorwyr Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn y Cynulliad. Cytunodd Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y ddogfen a amlinellai sylwadau'r Cynulliad.
10. Mae'r rhan fwyaf o sylwadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud â materion gweithredol sy'n mynd rhagddynt fel mater o drefn. Mae Pwyntiau 1.1 i 1.3, fodd

bynnag, yn ymdrin â'r mater mwy dadleuol o sicrhau cynrychiolaeth broffesiynol i bob un o bedair gwlad y DU ac yn cynnig y dylid neilltuo llefydd ychwanegol yn yr HPC ar gyfer cofrestrwyr o bob gwlad. Anfonwyd y ddogfen at Gyfarwyddwr yr Is-adran Adnoddau Dynol yng Ngweithrediaeth yr NHS (Lloegr) ynghyd â llythyr esboniadol, a lofnodwyd gan Gyfarwyddwr yr Is-adran Adnoddau Dynol yng Nghyfarwyddiaeth yr NHS (Cymru), a oedd yn dwyn sylw at y broblem o gynrychiolaeth genedlaethol. Yr oedd y PIGC eisoes wedi mynegi pryder ynghylch y pwynt hwn.

11. Yr oedd y llythyr esboniadol yn gofyn am ymateb ysgrifenedig gan Gyfarwyddwr yr Is-adran Adnoddau Dynol, Gweithrediaeth yr NHS, yn amlinellu eu safbwynt hwynt ar y mater hwn. Yr ydym, ar hyn o bryd, yn disgwyl am yr ymateb hwnnw.

**Cydymffurfio**

12. Nid yw'r awdurdod ar gyfer rheoleiddio'r galwedigaethau proffesiynol ym maes Iechyd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd yr HPC yn gorff ar gyfer y DU gyfan ac mae'r Adran Iechyd wedi rhoi'r arweiniad o ran polisi. Mae'r Adran Iechyd, ar hyn o bryd, yn llunio deddfwriaeth ddrafft i'w gweithredu trwy Orchymyn dan Adran 60 Deddf Iechyd 1999.

13. Caiff y Cynulliad leisio barn am gynigion yr HPC gan ddefnyddio adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae ACO wedi gweld y sylwadau ac yn fodlon gyda hwynt.

14. Nid oedd anfon canlyniadau'r seminar ymgynghori ymlaen i'r Adran Iechyd yn golygu unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Sefydlwyd Grp Gweithredu'r HPC yn ddiweddar i roi ystyriaeth fanylach i'r materion sy'n ymwneud â sefydlu'r HPC i ddisodli'r CPSM. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad ariannol manwl o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pontio. Caiff unrhyw wariant ei gynnwys o fewn y ddarpariaeth o Brif Grp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Bydd cyngor pellach, gan gynnwys unrhyw agweddau ar Reolau Sefydlog 19, ar gael maes o law. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynlluniau Ariannol a Chyllid NHS ynghylch y sylwadau hyn ac maent yn fodlon gyda'r agweddau ariannol.

**Themâu trawsbynciol**

15. Nid oes unrhyw themâu trawsbynciol wedi'u dynodi.

**Camau Gweithredu i'r Pwyllgor Pwnc**

16. Gofynnir i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r datblygiadau uchod. Croesewir sylwadau gan aelodau'r pwyllgor ynghylch y broblem o gynrychiolaeth genedlaethol o blith cofrestrwyr.

**Cyswllt**

17. Alan Hanna, Pennaeth Addysg Broffesiynol a Rheolaethol, yr Is-adran Adnoddau Dynol, Cyfarwyddiaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Rhif Ffôn: (029) 20823448. E-bost: Alan.Hanna@Wales.GSI.Gov.UK

**Jane Hutt AM**